



Bwrdd Partneriaeth
Rhanbarthol
Gorllewin Cymru

West Wales
Regional Partnership
Board

LLYTHYR NEWYDDION BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GORLLEWIN CYMRU



Croeso cynnes iawn i rifyn mis Ebrill Llythyr Newyddion Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru.

Mae'r llythyr newyddion hwn yn tynnu sylw at yr hyn y mae'r tîm a'r partneriaid ehangach wedi bod yn ei wneud dros y mis diwethaf.



Gweithio mewn partneriaeth gyda
Llywodraeth Cymru

Working in partnership with
Welsh Government

Digwyddiad Galw Heibio Cymorth Niwrowahaniaeth Gorllewin Cymru

Ddydd Mercher, 26 Mawrth yng nghapel Parc Dewi Sant a Chanolfan Byw'n Dda, cynhaliwyd Digwyddiad Galw Heibio Cymorth Niwrowahaniaeth Gorllewin Cymru a ariennir drwy Raglen Gwella Niwrowahaniaeth Llywodraeth Cymru.





Ymgysylltodd dros 170 aelodau o'r cyhoedd â thros 55 o sefydliadau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector yn ystod y digwyddiad. Llwyddodd i hyrwyddo rhwydweithio ac ymwybyddiaeth o wasanaethau cymorth yng Ngorllewin Cymru.

Cafodd y mynychwyr gyfle hefyd i gymryd rhan mewn Dosbarth Grymuso Corfforol, dosbarth dawns Tumble Lindy Hop Jive, arddangosiadau Assist My Life a grŵp celf People Speak Up.

I gael rhagor o fanylion a gwybodaeth am y partneriaid a'r sefydliadau a oedd yn rhan o'r digwyddiad, gweler y ddolen gyswllt yma: [West Wales Neurodivergence Support Event 2025 – West Wales Regional Partnership Board](#)







Radio GBM - A wnaethoch chi wrando ar Gynhadledd a Gwobrau arbennig Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru



Ail-fyw cyffro Cynhadledd a Gwobrau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru! Darlledodd Radio GBM yr holl uchafbwyntiau, gan gynnwys yr araith graff gan Dawn Bowden AS, sesiwn holi ac ateb ddiddorol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a'r enwebeion ar gyfer gwobrau. Yna crynhoi'r cyfan mewn sioe radio arbennig! Am y recordiad cyflawn (heb gerddoriaeth), cliciwch ar y ddolen yma:

https://www.youtube.com/watch?v=0CmHZ_TGDok

Beth yw Eiriolaeth?

Rôl yr eiriolwr yw helpu pobl i gyfathrebu â llais effeithiol, gan eu galluogi i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae eiriolwr yn gweithredu gyda pherson neu ar ran person arall i sefydlu neu hyrwyddo hawliau'r person hwnnw.

Croesawodd y Bwrdd Ymgysylltu â Dinasyddion a'r Trydydd Sector Kevin (Rheolwr Rhaglen Atal a Newid) a Peggy (3 CIPA) i gyfarfod y bwrdd ar 22 Ebrill i dynnu sylw at bwysigrwydd eiriolaeth a darparu adborth beth y gellir ei wneud i rannu'r wybodaeth hon o amgylch y rhanbarth.



Mae eiriolaeth yn dod mewn sawl ffurf, ac mae'n hanfodol codi ymwybyddiaeth bod help ar gael i'r rhai sydd ei angen. Rydyn ni i gyd yn gyfrifol am gysylltu pobl â'r cymorth eiriolaeth a all fod yn werthfawr iddynt.

Yng Ngorllewin Cymru, mae 3 CIPA yn bartneriaeth o eiriolwyr profiadol a chymwys sy'n cael eu comisiynu gan y tri awdurdod lleol yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro i ddarparu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol yn Gymraeg neu yn Saesneg ar draws y tair sir. Rydym wedi cael ein cydnabod am ragoriaeth ein darpariaeth gwasanaeth trwy ddyfarniad y marc perfformiad ansawdd (QPM) ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth.

Mae ganddynt un pwynt cyswllt drwy ffonio: 0800 2061387

A'u cyfeiriad e-bost yw: info@cipawales.org.uk

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar y ddolen yma: [Home - 3CIPA](#)

Mae eu gwasanaeth yn rhad ac am ddim, yn gyfrinachol ac yn annibynnol ar bob gwasanaeth arall.

Cyfarfod Galw Heibio Cyfathrebu ac Ymgysylltu Gorllewin Cymru

Cyfarfod Galw Heibio Cyfathrebu ac Ymgysylltu misol anffurfiol Gorllewin Cymru fydd hwn. Mae'r cyfarfod yn agored i'r sector cyhoeddus, sefydliadau preifat, sefydliadau'r trydydd sector a grwpiau cymorth. Bydd yr un eitemau ar agenda'r cyfarfod bob tro, gyda'r nod o leihau dyblygu a gwella cyfathrebu/ymgysylltu ar draws y rhanbarth. Bydd yr agenda yn cynnwys:

- Cyflwyniadau

- Unrhyw waith ymgysylltu parhaus, ei bwrpas a'r canlyniadau a fwriedir (e.e. arolygon, ymgynghoriadau, gweithdai neu ymgyrchoedd marchnata ledled Gorllewin Cymru – lle i drafod rhannu adnoddau a nodi cydweithio perthnasol.)
- Unrhyw ddigwyddiadau sy'n mynd rhagddynt ar draws y rhanbarth (e.e. cynulleidfadarged, pwrpas, pwy sy'n cefnogi/mynychu)
- Unrhyw waith ymchwil sydd ei angen (e.e. lle i rannu gwaith ymchwil, ymgysylltu, ymgynghori ac ati a gynhaliwyd yn flaenorol (yn dilyn GDPR))
- Unrhyw Fater Arall

Isod mae'r ddolen ar gyfer y cyfarfod ddydd Mercher 7 Mai rhwng 10am ac 11am. Gofynnir i chi ei rhannu gyda'ch rhwydwaith a allai fod â diddordeb:

https://teams.microsoft.com/l/meetup-join/19%3ameeting_NzUzZjQyYzgtMGE0MC00NzMwLWE5YzAtNGRINTM4NDcwMzY1%40thead.v2/0?context=%7b%22Tid%22%3a%22319baa9a-8e8b-4d1e-86ae-f76a403f1c84%22%2c%22Oid%22%3a%22cffdda96-d733-4a38-a989-8f91f263b3e7%22%7d

Gwasanaeth profi a thrin Heintiau'r Llwybr Wrinol (UTI) Fferyllfa Gymunedol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Roedd y fenter hon gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar wahân i raglen Esiamlau Bevan. Mae Esiamlau Bevan yn garedig wedi gadael i ni rannu eu diweddariad prosiect gyda chi:

Gwasanaeth profi a thrin UTI (Heintiau'r Llwybr Troethol) mewn fferyllfeydd cymunedol a fyddai'n cefnogi practisau meddygol, GIG 111, Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau (OOH) ac o bosibl unedau UMA gyda chyflwyniadau o gleifion sydd â heintiau llwybr wrinol is anghymhleth, trwy gynnig modd. cyfeirio at fferyllfeydd sy'n cymryd rhan.

Nid yw'r gwasanaeth hwn ar gael fel gwasanaeth ychwanegol yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae gwasanaethau preifat ar gael y telir amdanynt gan y claf a all fod yn gostus ac nid bob amser yn gyfleus gan mai dim ond nifer fach iawn o fferyllfeydd sy'n cynnig y gwasanaeth.

Hyd at ddiwedd Awst 2022:

- Cleifion 1,152 defnyddio'r gwasanaeth sy'n dangos arbedion sylweddol o ran apwyntiadau a chostau cysylltiedig mewn lleoliadau eraill.
- Yn seiliedig ar ganlyniadau arolwg cleifion, Dywedodd 71% y byddent wedi mynychu practis meddyg teulu pe na bai ganddynt fynediad i wasanaeth PGD UTI, byddai hyn yn awgrymu a arbediad cost rhagamcanol o fewn GMS yn unig o £31,902 dros gyfnod o 11 mis.

- 71% wedi cael eu trin â gwrthfotig.
- 160 hyfforddwyd fferyllwyr i ddarparu'r gwasanaeth.
- 70 (71%) fferyllfeydd bellach yn cynnig y gwasanaeth yn BIPHDd.

[H DUHB Community Pharmacy UTI \(Urinary Tract Infections\) testing and treatment service - Bevan Commission](#)

[Why wait? - Bevan Commission](#)



Mae ganddyn nhw ddadansoddiad fideo gwyh o'r prosiect ar LinkedIn. Dilynwch nhw ac edrychwch ar y ddolen yma: https://www.linkedin.com/posts/bevan-commission_healthcareinnovation-communitypharmacy-nhswales-activity-7315744723837620224-r48N?utm_source=share&utm_medium=member_desktop&rcm=ACoAABltxasBY9go9HQo7_aAGfoMG-GPwTubDpE

Cronfa Seibiant i Ofalwyr Rownd 3 – Ar agor am geisiadau!



Neges gan un o'n partneriaid:

Mae'r ffenest ymgeisio am gymorth wrth y Gronfa Seibiant i Ofalwyr bellach ar agor. Bydd Cronfa Seibiant i Ofalwyr yn cynnig cyllid refeniw o hyd at £4,000 ar gyfer prosiectau sy'n cynnig seibiant byr i ofalwyr di-dâl yn Sir Benfro tan fis Mawrth 2026.

Nod y gronfa yw cynyddu argaeledd a hygyrchedd seibiant byr a chefnogi prosiectau sy'n darparu seibiant wedi eu persenoleiddio at angenion gofalwyr di-dâl yn Sir Benfro trwy ariannu'r sector cymunedol gwirfoddol a Chynghorau Tref/ Cymuned i ddatblygu syniadau creadigol i gynorthwyo gofalwyr i gymryd seibiant o ofalu.

Gellir lawrlwytho pecynnau cais o [Padlet Gwasanaeth Cyngori ar Gyllid PAVS yma](#) a [Dolen gwefan PAVS yma](#). E-bostiwch development@pavs.org.uk gydag unrhyw ymholiadau!

Dyddiad cau'r gronfa: Dydd Llun 12 Mai 2025 am 12 hanner dydd.

Gallet ti gael hyd at 30 awr o ofal plant wedi'i ariannu - edrych i weld os wyt ti'n gymwys.



Neges gan un o'n partneriaid:

Mae Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru yn golygu bod llawer o rieni plant 3 i 4 oed yn gallu cael cymorth gyda chostau gofal plant.

Mae hyn yn golygu 30 awr o addysg gynnar (a elwir hefyd yn addysg feithrin) a gofal plant yng Nghymru i rieni sy'n gymwys. Mae'r 30 awr yn cynnwys lleiafswm o 10 awr o addysg gynnar yr wythnos ac uchafswm o 20 awr o ofal plant yr wythnos.

Mae hyn fel arfer o'r tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn dair oed, nes ei fod yn gymwys i dderbyn lle mewn addysg llawnamser (ysgol) - fel arfer y mis Medi ar ôl ei ben-blwydd yn bedair oed.

[Cynnig Gofal Plant Cymru](#) | [Help Gyda Chostau Gofal Plant yng Nghymru](#) | [LLYW.CYMRU](#)

Digwyddiadau i Dod

Cynrychiolydd Dinasyddion a'r Trydydd Sector

Os hoffech ddod i'r cyfarfod nesaf ar Dydd Mawrth 22 Ebrill 2025, anfonwch neges atom at wwrpb@sirgar.gov.uk.

Beth sy'n digwydd ym mis Mai?

01.05.25 - Organisation Support Drop in 11am to 1pm ran by NACRO at Neuadd Tysul Hall, New Road, Llandysul SA44 4QL.

02.05.25 - Sound Bath in the Chapel at Parc Dewi Sant. Two sessions, running at 10 am - 11:30am and 1pm - 2:30pm. Free to attend but booking is required on the link here: [Sound Healing at the Chapel @ Parc Dewi Sant Tickets, Fri, May 2, 2025 at 10:00 AM | Eventbrite](#).

14.05.25 - Organisation Support Drop in 11am to 1pm ran by NACRO at Our Lady Queen of Peace RC Church, Castle Street, Newcastle Emlyn SA38 9AF.

15.05.25 - Keeping Well Roadshow Pembrokeshire 10am to 3pm at the Regency Hall, Saundersfoot.

16.05.25 - Employment Support Drop 11am to 1pm at the Carmarthen Excel Foodbank, Old Llansteffan Road, Carmarthen SA31 3BP.

19.05.25 - Organisation Support Drop in 11am to 1pm ran by NACRO at Llandovery Youth & Community Centre, Gerwyn House, 19th Market Square, Llandovery SA20 0AB.

20.05.25 - Organisation Support Drop in 11am to 1pm ran by NACRO at Llandeilo Civic Hall, 17 Crescent Road, Llandeilo SA19 6HW.

30.05.25 - Organisation Support Drop in 11am to 1pm ran by NACRO at Y Gat-The Gate, Pentre Road, St Clears, SA33 4AA.

30.05.25 - Employment Support Drop in 10am to 12pm at Ammanford Foodbank, Y Llusern, Wind Street, Ammanford 3DR.

Funded by UK Government  Wedi ei ariannu ga Llywodraeth y DU

connectingcarmarthenshire.wales





Nacro

Llandeilo

Digwyddiad Amlasiantaeth Byw'n Dda

Living Well Multi Agency Drop In

Ydych chi, eich teulu neu ffrindiau yn cael eu heffithio gan:

Iechyd Meddwl
Cyfrifoldebau gofalu
Dyled, Budd-daliadau a Materion Ariannol
Iechyd Corfforol / Salwch Tymor
Hir / Cyflyrau
Materion Tai
Cam-drin Domestig
neu unrhyw beth arall...

Are you, your family or friends affected by?

Mental Health
Caring responsibilities
Debt, Benefit & Financial Issues
Physical Health Conditions / Long Term Illnesses
Housing Related Issues
Domestic Abuse
or anything else...

11:00-13:00

Neuadd Ddinesig
Civic Hall

Ydych chi angen cefnogaeth gyda:

Ynysu cymdeithasol
Dod i adnabod eich cymuned leol?
Cymorth Cyflogaeth
Gwirfoddoli
Cyflenwad Ynni
Cynhaliadau Profedigaeth
neu unrhyw beth arall...

Do you need support with:

Social Isolation
Getting to know your local community?
Employment Support
Volunteering
Energy Supply
Bereavement Support
or anything else...

Llandeilo
SA19 6HW

Llunigaeth am ddim
Free Refreshments

Cefnogydd gan
Supported by



Trydydd dydd Mawrth y mis

Third Tuesday of the Month



#CysylltuSirGâr
#ConnectingCarmarthenshire
#ConnectCarmarthenshire

 communityhub@nacro.org.uk

 0800 917 6255

Pembrokeshire Keeping Well Roadshow!

Rhannwch gyda'ch rhwydweithiau





Mae eich llesiant yn

BWYSIG

Mae amrywiaeth o dimau o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro a Chyngor Sir Penfro yn cynnal digwyddiadau ledled Sir Benfro i chi alw heibio a chael sgwrs am gadw'n iach.

BETH SYDD AR GAEL YN Y DIGWYDDIADAU

-  Gwasanaethau gofal iechyd
-  Hyb cymunedol – un alwad dyna'i gyd
-  Therapiau Galwedigaethol
-  Larymau cymunedol a thechnoleg
-  Profi pwysedd gwaed
-  Gwybodaeth i ofalwyr

15 MAI 2025	10 MEHEFIN 2025	18 GORFFENNAF 2025
Crymch Bro Preseli (y drws nesaf i'r feddygfa)	Pembroke Dock Oriol VC	Saundersfoot Regency Hall
14 AWST 2025	18 MEDI 2025	21 TACHWEDD 2025
Hakin a Hubberston Canolfan Gymunedol	Tyddewi Clwb Rygbi	Hwlfordd Canolfan Hamdden



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board



Ffôn Cymunedol
3a Benfro
Pembrokeshire
Community Hub



Cyngor Sir Penfro
Pembrokeshire County Council

 Cysylltwch
01437 723660

 enquiries@pembrokeshirecommunityhub.org

The Wallich - Drop In for Housing Support

Rhannwch gyda'ch rhwydweithiau



COFFEE MORNING

BORE COFFI | PORANEK Z KAWIE
EVERY THURSDAY MORNING 10.30AM-12.30PM

BOB BORE DYDD IAU 10.30YB- 12.30YP

KAZDY CZWARTEK RANO 10:30 – 12:30
The Wallich, The Old Parish Hall, Llanelli, SA15 3GA

All welcome to drop in to have a coffee,
----- chat-and-more -----

I gyd sy'n croeso i ddod i gael coffi, sgwrs ac yn
mwy

Zapraszamy wszystkich na kawę i żeby porozmawiać

*THESE COFFEE MORNINGS OCCUR EVERY WEEK*WITH
DIFFERENT THEMES AND GUEST SPEAKERS *

*Y BOREAU COFFI HWN SY'N DIGWYDD BOBWYTHNOS
GYDA THEMAU GWAHANOL A SIARADWYR GWADD *

*PORANEK Z KAWA ODBYWA SIE CO TYDZIEN. ROZNI GOSCIE
ROWNIEZ BEDA ODWIEDZAC

Ydych chi'n ein dilyn ni?

Rydym wedi dechrau tudalen LinkedIn yn ddiweddar. Cofiwch ein dilyn ni a sôn amdanom yn eich postiau pan fyddwch yn cymryd rhan yn y gwaith a wnawn. Byddem wrth ein bodd yn clywed am hynny!



Bwrdd Partneriaeth
Rhanbarthol
Gorllewin Cymru
West Wales
Regional Partnership
Board



on Facebook @PGGCWWCP



on Instagram @PGGCWWCP



on X @PGGCWWCP



on LinkedIn @ West Wales Regional
Partnership Board



on our website @
<https://www.wwrpb.org.uk/>

Cysylltu â ni!

Os oes gennych gynnwys yr hoffech ei rannu ar draws ein sianeli yn y cyfryngau, neu unrhyw awgrymiadau ar gyfer rhifynnau yn y dyfodol, rhowch wybod i ni ar wwrpb@sirgar.gov.uk Y tîm yn edrych ymlaen at glywed gennych chi a datblygu'r llythyr newyddion yn adnodd defnyddiol a llawn gwybodaeth. Bydd eich adborth yn ein helpu i gyflawni hynny, ac yn sicrhau bod y llythyr newyddion yn cael ei ddosbarthu ac yn cael ei ddarllen!



#WWRPB
@PGGCWWCP

Ewch i'n gwefan i
gael y wybodaeth
ddiweddraf:



www.wwrpb.org.uk

Ymholiadau pellach:



wwrpb@cararthenshire.gov.uk

